LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Mae'r fersiwn digidol hwn o'r erthygl/cylchgrawn wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

NODER y gall cyfyngiadau hawlfraint ac amodau trwydded fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **Mwy o Wybodaeth** wrth ddarllen y cylchgrawn ar wefan Cylchgronau Cymru (cylchgronau.llyfrgell.cymru).

Efallai y bydd hefyd gennych ddiddordeb yn Papurau Newydd Cymru (papuraunewydd.llyfrgell.cymru), chwaer-wefan gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhoi mynediad i dros 1.1 milwn o dudalennau o dros 130 o bapurau newydd a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1919.

This digital version of the article/journal has been created by The National Library of Wales.

PLEASE NOTE that copyright restrictions and license terms may apply. For more information, view **More Information** when reading the journal on the Welsh Journals (journals.library.wales) website.

You may also be interested in Welsh Newspapers (newspapers.library.wales), a sister-site from the National Library of Wales that gives access to over 1.1 million pages from over 130 newspapers published between 1805 and 1919.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

# *Papur Pan**

Yn 1834 alltudiwyd chwe gwas ffarm o Tolpuddle, swydd Dorset, am saith mlynedd. Eu trosedd oedd ceisio sefydlu Undeb Llafur a gofyn am lw o ffyddlondeb i'r Undeb hwnnw. Ymhen dwy flynedd, wedi llawer o wrthwynebu cyhoeddus, rhyddhawyd nhw. Dyna Ferthyron Tolpuddle.

Yr un flwyddyn, mewn bwthyn ym mhlwy Llandysul ganwyd mab i was ffarm, Evan, a'i wraig, Hannah, a'i fedyddio yr un enw â'i dad. Ond erbyn y mis Hydref canlynol roedd y tad yn ei fedd a'r fam wedi ei gadael i fagu y bychan, a'i chwaer oedd tua phum mlwydd oed ar y pryd, mewn dygn dlodi.

O ystyried hanes Evan Pan Jones, fel y daethpwyd i'w nabod o'n ddiweddarach, mae'n gwbl briodol iddo gael ei eni ym mlwyddyn achos Merthyron Tolpuddle oherwydd cysegrodd ran helaeth iawn o'i ddawn, ei arian a'i ynni i ddadlau achos gweithwyr amaethyddol a diwydiannol yn erbyn eu gorthrymwyr.

Wrth gyfeirio at dlodi ei fam dwedodd nad oedd 'ganddi ddim na neb ond Rhagluniaeth a'i deg ewin i ddybynu arno' ac fel hithau, o'r cychwyn cyntaf, mi fu yntau yn ymdrechgar a diflino. Yn naw oed roedd ganddo fusnes bach yn gweu a gwerthu 'sanau a menyg; plethu stolion brwyn hefyd, yn ôl y galw. At hynny bu'n torri cerrig ar ochor ffyrdd yr ardal am yn agos i dair blynedd a'r un pryd yn crafu rhyw chydig fisoedd o addysg mewn ysgolion lleol; a chael profiad o'r 'Welsh Not'.

Hefo peth o arian y gwaith torri cerrig prentisiwyd o i deiliwr lleol a dysgu ei grefft y buodd o am beth amser wedyn mewn pentrefi a thre gyfagos cyn symud o'r diwedd i El Dorado y Gweithiau Glo: teithio

* Darlith Goffa Dafydd Orwig, a draddodwyd i Gymdeithas Ddiwylliannol Dyffryn Ogwen ar Fawrth 3ydd, 2000, yn Festri Jerusalem.

mewn 'trol galch' o Landysul i Lansamlet – lle gwelodd o drên am y tro cynta'n ei fywyd – a chyrraedd Pentyrch, ym Morgannwg. Mi aeth pethau'n hwylus iddo fo yno – gweithio hefo teiliwr hynaws a chael croeso cynnes yn eglwys yr Annibynwyr. Ymhen peth amser roedd o'n teimlo'n ddigon hyderus i gychwyn busnes ei hun ac ar fyr o dro roedd o'n gwneud yn ddigon da i gyflogi dau ddyn. Ym Mhentyrch hefyd y dechreuoedd o ar ei yrfa fel 'gŵr cyhoeddus', yn siarad o blaid Dirwest. Nid heb gryn wrthwynebiad, gyda llaw, oddi wrth rai o'i gyd-aelodau yn eglwys Bethlehem. Ond mi bydrodd arni gan ddod yn adnabyddus fel pleidiwr Dirwest a 'Gwrthysmygu' mewn sawl ardal yn ne-ddwyrain Cymru. Ar y trywydd hwnnw yr aeth o i rai o ardaloedd sir Fynwy a chyn bo hir cefnodd ar fyw ym Mhentyrch a sefydlu busnes newydd ym Mlaenau Gwent gan ymaelodi yn eglwys Berea yno. Yn y capel Annibynnol hwnnw y traddododd ei bregeth gyntaf a hefo'r arian a gasglodd trwy deilwra mentrodd yn Rhagfyr 1857 i Goleg Annibynnol y Bala.

Yno daeth o dan ddylanwad uniongyrchol Michael D. Jones, un o'i arwyr pennaf wedyn, ac yno hefyd mi fu'n ddigon ffodus i gael cwmni Ioan Pedr a wnaed yn athro yn y Coleg yn 1859. Roedd y gŵr hwnnw wedi ymweld â phrifysgolion yn yr Almaen ddwywaith, yn 1856 ac 1857, ac wedi meistroli iaith y wlad honno yn drylwyr. Mi sefydlodd ddosbarth Almaeneg yn y coleg ac ymunodd Pan â hwnnw ar unwaith.

Ar gyngor Ioan Pedr aeth Pan yntau i'r Almaen, yn Awst 1860, hynny cyn diwedd ei ail flwyddyn yn y coleg ac wedi iddo, chwedl yntau, 'weled mam gyda dwy fuwch mewn tyddyn bychan lle y gallai hi gael tamaid, gan nad beth ddeuai o honof fi'. Treuliodd rai misoedd mewn gwahanol rannau o'r wlad gan lwyddo i'w gadw ei hun yn bennaf trwy ddysgu Saesneg i Almaenwyr a dilynodd hynny trwy dreulio bron i bedwar mis ym Mharis gan lwyddo eto i ennill digon o arian trwy weithio yn y ddinas a dysgu peth Ffrangeg yr un pryd.

Wedi cwblhau blwyddyn arall yn Y Bala aeth i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin yn 1862. Yno, gyda llaw, y mabwysiadodd o'r enw canol 'Pan'; hynny er mwyn i bawb allu gwahaniaethu'n rhwydd rhwng tri Evan Jones a ddigwyddai fod yn y Coleg ar y pryd. 'Wn i ddim pam y dewisodd o'r 'Pan', onid i roi sioc i ambell Gristion sychdduwiol. Mi fyddai hynny'n nodweddiadol ohono.

Bu yn y Coleg hwnnw am bedair blynedd a thra oedd o yno, yn astudio yn ystod yr wythnos a phregethu ar y Suliau, yn aml yn casglu at y Coleg yr un pryd, tynnwyd o i mewn i helynt y chwaraeodd ran amlwg ynddo yn ddiweddarach. Ond ychydig mwy am hynny yn nes ymlaen.

Ar ddiwedd ei gyfnod yng Nghaerfyrddin, yn 1866, ac yntau heb alwad oddi wrth unrhyw eglwys, aeth ar sgawt i Lundain a thra'n aros yno hefo teulu o Gymry caredig daeth cyfle iddo fynd eto i'r Almaen,

y tro hwn i ddysgu Saesneg a Ffrangeg mewn coleg yn Hanover. Gafaelodd yn ei gyfle ond 'fuodd o ddim yno ragor na thri mis cyn cael cyfle arall i wneud cyrsiau gradd ym Mhrifysgol Marburg.

Yno graddiodd yn M.A. a Ph.D., a dychwelodd i Gymru yn Awst 1869. Trwy'r cyfnod hwn, cofier, roedd o'n ei gynnal ei hun trwy ddysgu Saesneg i dramorwyr yn ei oriau hamdden.

Yn ôl yng Nghymru bu am sbel yn Llanofer ond o'r diwedd, yn Ionawr 1870, cafodd ei ordeinio yn weinidog ar eglwys Annibynnol Mostyn, sir Fflint, ac yno y treuliodd weddill ei oes brysur, helyntus (bu'n ddiffynnydd mewn tri achos o athrod, a cholli bob tro) hyd ei ymddeoliad o'r weinidogaeth yn 1908 a'i farw ar Fai 8fed, 1922.

Dyna fraslun o'i fywyd. Cymeriad – a chymêr hefyd – amlochrog: pregethwr a gweinidog ymrwymedig, golygydd, cofiannydd, darlithydd cyhoeddus, bardd, cyfieithydd, teithiwr, llwyrymwrthodwr, piwritan, dychanwr ac, uwchlaw popeth efallai, dadleuwr cyndyn mewn achosion crefyddol a gwleidyddol. Gellid traethu'n bur eang ar sawl un o'r gweddau hyn arno ond yr ydw i am ganolbwyntio'n bennaf heno ar y wedd wleidyddol i'w waith.

Cyn dod at hynny'n benodol, fodd bynnag, gwell imi aros am dipyn hefo mater y cyfeiriais i ato'n gynharach, sef yr helynt y profodd Pan beth o'i gynnwrf pan oedd o'n fyfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin ac yn casglu at y Coleg hwnnw mewn eglwysi Annibynnol y tu yma a thu draw i Glawdd Offa. Mewn byr eiriau, 'chafodd o ddim croeso yn rhai ohonyn nhw; y rheini oedd yn bleidiol i'r Cyfansoddiad Newydd. Mae'n rhaid wrth air o eglurhad yma.

Fel 'ffrae ffyrnicaf' Annibynwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg y disgrifiwyd 'Dadl y Cyfansoddiadau' gan y diweddar Athro Tudur Jones. Ffrae oedd hi ynglŷn â Chyfansoddiad Coleg Annibynnol y Bala. Ar un ochr, y bobl a fynnai mai gan danysgrifwyr y Coleg *yn unig* yr oedd yr hawl i drafod a phenderfynu ar ei holl weithgareddau. Dyma gefnogwyr yr Hen Gyfansoddiad (Pan yn amlwg yn eu plith) a'u harweinydd nhw oedd prifathro'r Coleg, Michael D. Jones. Ar yr ochr arall, y garfan oedd yn dadlau mai *cynrychiolwyr* wedi eu penodi gan y Cyfarfodydd Chwarter yn unig a ddylai drafod a phenderfynu ar bob gweithgaredd. Dyma gefnogwyr y Cyfansoddiad Newydd, yn cael eu harwain gan Dr. John Thomas, Lerpwl. A 'bu galed y bygylu' ar bob tu.

Nid dyma'r lle i sôn am fanylion yr holl fusnes ond mae'n bwysig inni fod yn glir ein meddyliau am natur gyffredinol y gwrthdaro i'r graddau y mae hynny'n bwrw goleuni ar gymeriad Pan Jones ei hun. Ac ystyried y gwrthdaro ar wahân i'w gyd-destun crefyddol (ac rwy'n ymwybodol iawn fy mod i'n symleiddio'n arw yma), gwrthdaro oedd o rhwng dwy wedd ar ddemocratiaeth: democratiaeth uniongyrchol, lle mae pob unigolyn o fewn sefydliad penodol yn cael cyfle i siarad

drosto'i hun, a democratiaeth gynrychioladol, lle mae unigolion o fewn y sefydliad yn siarad dros eraill, sydd y tu allan iddo.

Wel, Annibynnwr gyda'r mwyaf annibynnol ohonyn nhw oedd Pan Jones. Dyn yn mynnu 'siarad drosto'i hun', ac yn rhyfeddol o gyson hefyd, chwarae teg iddo, yn ei barodrwydd i adael i eraill siarad drostynt eu hunain. Pan sefydlodd ei gylchgrawn misol ei hun yn 1891, dan y pennawd, *Cwrs y Byd* (a dyma 'Bapur Pan' mewn gwirionedd) yn ei Anerchiad agoriadol i'r rhifyn cyntaf nododd mai 'Rhyddfrydig ond Anibynol' fyddai ei safbwynt gwleidyddol, ac mai ar 'Ryddid a Rhinwedd' y byddai pwyslais crefyddol y cyhoeddiad. A rhag i rywun gael ei gamarwain gan y gair 'Rhyddfrydig' rhaid imi frysio i esbonio nad datgan ymrwymiad yr oedd Pan i lefaru dros y Blaid Ryddfrydol. Er mwyn gwneud hynny'n glir yr ychwanegodd yr ymadrodd 'ond Anibynol'. Erbyn y nawdegau yn bendant 'fyddai o ddim yn hapus i rannu ei wely hefo'r Blaid honno. Ond rwyf mewn peryg o faglu dros fy nhraed fy hun yrŵan a gwell imi symud gam wrth gam.

Dyma ddod felly at brif swyddogaeth hyn o druth sef eich cyflwyno i safbwynt gwleidyddol cyffredinol Pan Jones. Ac fel y gwelaf fi ei daith wleidyddol o, taith yw hi o ddadrithiad llwyr yn y Blaid Ryddfrydol, o gefnu arni yn ddiseremoni, ac o symud yn ddigamsyniol at blaid newydd Sosialaidd. Gwaetha'r modd, 'wn i ddim am dystiolaeth ysgrifenedig iddo fo ymuno'n ffurfiol ag unrhyw blaid Lafur benodol. 'Does dim llawer o wybodaeth yn ei gylch yn ystod, dyweder, deunaw mlynedd olaf ei fywyd. Eithr 'does dim amheuaeth yn fy meddwl i na ellir ei gyfrif yn un o Sosialwyr cynnar Cymru; gyda hyn o sylw – nad athronydd gwleidyddol yn dadansoddi syniadau mohono gan geisio eu perthnasu ynghyd i ffurfio damcaniaeth hunan-gyson ond, yn hytrach, un yn synhwyro grym apêl rhai syniadau a pholisïau a ymddangosai iddo fo yn ymarferol. Ar y gweithredol, nid y cysyniadol, yr oedd ei lygad o.

Mae ei syniadaeth wleidyddol i'w chael yn arbennig mewn dau newyddiadur, sef *Y Celt* ac, i raddau llai, *Llais Llafur*, a'i gylchgrawn o'i hun, *Cwrs y Byd*.

Er hwylustod, gadewch imi restru'n foel rai o'r prif bynciau y dadleuir drostyn nhw yn *Cwrs y Byd*:

1. Cenedlaetholi'r Tir a dileu landlordiaeth.
2. Cenedlaetholi'r glofeydd, y chwareli llechi, yr afonydd, y nwy, y dociau, y llythyrdy, y gweithfeydd haearn a dur, y rheilffyrdd, llongau: cânt eu henwi i gyd yma ac acw'n y *Cwrs*. Ac yn un o ysgrifau niferus R. J. Derfel yn y cylchgrawn (y mwyaf o'r Sosialwyr cynnar Cymraeg eu hiaith) mynnir hefyd y byddai cenedlaetholi'r tir yn ei gwneud yn bosibl i gael 'cyfiawnder a meddyginiaeth yn rhad'.

3. Un o themâu y *Cwrs* yw fod dosbarthu cyfoeth yn deg yn bwysicach na phynciau etholiadol y Toriaid a'r Rhyddfrydwyr.
4. Sicrhau tâl i Aelodau Seneddol a Chynghorwyr Sir.
5. Ymreolaeth i Gymru, Iwerddon, Lloegr a'r Alban.
6. Datgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys yng Nghymru ynghyd â gwrthwynebu talu'r Degwm.
7. Galw am ddeddfau seneddol i hybu Dirwest.
8. Addysg Rad a Rhydd, hefo oedran gadael ysgol yn 14 mlwydd oed.
9. Sicrhau pleidlais i Ferched.
10. Pleidio Undebaeth Lafur i'r graddau fod Pan ei hun yn galw am un Undeb Canolog a fyddai wedyn yn ddigon effeithiol i orchfygu cyflogwr grymus mewn streiciau y gellid eu cyfiawnhau. Gwrthdaro cwbl anghyfartal oedd y gwrthdaro rhwng Penrhyn a'r chwarelwyr yma ym Methesda.
11. Dydd gwaith wyth awr i bob gweithiwr.
12. Galw am sefydlu Gwerinlywodraeth a beirniadu'r teulu brenhinol yn hallt. Gwrth-freniniaethwr tanbaid oedd Pan.
13. Gwrthwynebu Imperialaeth Prydain ymhob rhan o'r byd, a chondemnio'n llym y mwgwd 'Cristnogol' drosti. Cystwyir Henry Morton Stanley yn arbennig fel asiant Imperialaidd ac fel un yn gwadu ei Gymreictod.
14. Egluro hanfodion Sosialaeth fel damcaniaeth wleidyddol, yn neilltuol mewn cyfresi o erthyglau gan R. J. Derfel a Benjamin Davies, yr olaf yn ŵr o ardal Llandysul, fel Pan ei hun, yn Ffisegydd ym Mhrifysgol Lerpwl ac yn Gynorthwywr Personol i Syr Oliver Lodge.

Hyd y gwelaf, cytuna haneswyr y cyfnod hwn fod pedwar prif bwnc yn mynd â sylw y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru, sef Datgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru (a phwnc llosg y Degwm Eglwysig yn ei sgîl); datblygu cyfundrefn addysg gymwys i'r amserau; diwygio mesurau yn ymwneud â daliadaeth Tir; ac Ymreolaeth (yn bennaf, wrth gwrs, i'r Iwerddon) ond, hefyd, peth galw am ddatganoli ar gyfer Cymru; er mai galwad ddigon gwantan oedd hi yn achos Cymru.

Gwelir ar unwaith fod y pedwar pwnc yna yn rhan o raglen wleidyddol *Cwrs y Byd*, a gellir dweud yr un peth am *Y Celt* a *Llais Llafur*, ond mae'n deg casglu fod y tri chyhoeddiad yma, fel ei gilydd, yn mynd ymhellach na chyffes ffydd swyddogol y Blaid Ryddfrydol. A sylwer mai sôn yr ydw i rŵan am bolisïau swyddogol y Blaid honno ac nid am bolisïau ambell aelod Cymreig ohoni yn nawdegau y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Am Pan Jones ei hun, 'does dim amheuaeth o gwbl ei fod o a'i *Gwrs* yn mynd ymhellach o lawer,

ymhellach nag odid unrhyw Gymro arall yn ei ddydd: ymhellach, 'ddwedwn i, na hyd yn oed ei arwr mawr, Michael D. Jones.

Slogan wleidyddol ganolog Pan oedd 'Y Ddaear i'r Bobl' ac o gwmpas yr ymadrodd bachog yna y bydd yn rhaid inni droi am gryn dipyn yrŵan.

Ar ddechrau wythdegau'r ganrif daeth i gysylltiad agos â mudiad a sylfaenwyd yn ffurfiol yn Lloegr i hyrwyddo'r syniad o genedlaetholi'r tir; hynny, gyda llaw, dan arweiniad Cymro a anwyd ym Mrynbuga, Mynwy, Alfred Russel Wallace, gŵr a wnaeth gyfraniad gwreiddiol i ddamcaniaeth esblygiad. Ond roedd ganddo fo heyrn mewn sawl tân. A helyntion y Tir yn Iwerddon ar eu ffyrnicaf bron, cyhoeddodd Wallace erthygl yn 1880 yn y cylchgrawn *Contemporary Review* dan y pennawd 'How to Nationalize the land: a radical solution to the Irish land question' ac erbyn y flwyddyn ddilynol roedd y gymdeithas y daethpwyd i'w hadnabod fel *The Land Nationalization Society* mewn bod.

Cysylltodd Pan â hi yn gynnar yn ei hanes. Roedd yn bresennol yn ei hail gyfarfod blynyddol yn y City Club, Ludgate Circus, Llundain ar Fehefin 27ain, 1883, a rhoes grynodeb o gynnwys y cyfarfod yn *Y Celt* (Gorffennaf 13). Ymddengys fod y sylfaenwyr yn bur optimistaidd gan eu bod yn barnu y gallen nhw gael y maen i'r wal, yn gwbl gyfansoddiadol, o fewn dau etholiad cyffredinol. Nid felly Pan: 'Ofnwn', meddai, 'eu bod yn camfesur yr anhawsderau'. Ond roedd o'n frwd am weld canghennau cymdeithas o'r un natur yn cael eu sefydlu yng Nghymru benbaladr ac fel troednodyn i'w ysgrif mae'n gofyn am enw Cymraeg ar y Gymdeithas.

Wrth gwrs, nid dyma achos cychwynnol ei ddiddordeb yng nghwestiwn Daliadaeth Tir. 'Does dim gwybod pa bryd yn union y daeth o i wahaniaethu mor llym ag y gwnaeth o'n ddiweddarach rhwng buddiannau'r tirfeddiannwr a'r tenant, ond gellir tybio'n deg fod ei fynediad i Goleg y Bala wedi agor ei lygaid i'r sefyllfa yn llawn. Cwta flwyddyn a hanner wedi iddo ddechrau dod dan ddylanwad uniongyrchol Michael D. Jones cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol 1859 a llwyddodd Cymdeithas Ddiwygiadol y Bala, ynghyd â Rhyddfrydwyr eraill ym Meirion, i gael gan David Williams, Castell Deudraeth, ddod i'r maes yn erbyn y Tori, W. W. E. Wynne, Peniarth, Llanegryn, tirfeddiannwr pur sylweddol yn y sir. Dyma fynd ati i drefnu cyfres o gyfarfodydd i hybu hynt y Rhyddfrydwr, hefo'r cyntaf yn cael ei gynnal yn Y Bala. Gwrandewch ar adroddiad Pan am y cyfarfod, yn ei gofiant i Michael D. Jones. Mae mor fyw fel y tybiwn i ei fod o'n rhan o'r gynulleidfa ac yn cael mwynhad di-ben-draw wrth wrando ar rai o eiriau ei brifathro:

> . . . i M. D. Jones yr ymddiriedwyd cynyg y pendefyniad cyntaf yn y cyfarfod cyntaf, a chynygiodd ef gyda ffrwd o arabedd nad oedd neb wedi clywed y fath erioed o'r blaen yn y Bala. Yr oedd y gymeradwyaeth yn fyddarol a didaw. Dywedai, 'Mae'r aelod presenol yn ddyn rhagorol, [gan gyfeirio at Wynne, Peniarth] a phe na ddisgwyliasid iddo gynrychioli neb ond pendefigion fe wnaethai yn ardderchog. Mae yn y Senedd er ys blynyddoedd, ond hyd yma ni chlywodd neb ei lais; pe anfonasid llo i'r Senedd i'n cynrychioli, tebyg y buasai'n dal ar ryw gyfle i frefu; ond ni roddodd Mr Wynne erioed fref yn y Senedd,' &c.

A bwrw bod angen am hynny o gwbl roedd Pan wedi darganfod patrwm iddo'i hun, fel llefarydd gwleidyddol, yn ei brifathro. Hefo'r un diffyg parch carlamus at landlordiaid y traethodd o weddill ei oes ar lwyfan, mewn pulpud ac yn y wasg.

Ond canlyniadau yr etholiad hwnnw a yrrodd yr hoelen adre. Yn ôl Pan dialodd y landlordiaid ar y tenantiaid hynny a wrthododd bleidleisio yn unol â dymuniad y 'mistar' trwy godi rhenti nifer dda ohonyn nhw a throi tri ar ddeg o'u ffermydd gan gynnwys, gyda llaw, fam Michel D. Jones ei hun, a hithau wedi treulio pymtheg ar hugain o flynyddoedd ei hoes ar dir Syr Watcyn.

Cadarnhad pellach i deimladau gwrth-landlordaidd Pan oedd digwyddiadau tebyg yn dilyn ar etholiadau cyffredinol 1865 ac 1868, er nad oedd o ddim mor agos at y rheini ag yr oedd o pan oedd yn y Bala. Rhaid cofio hefyd iddo dyfu'n llanc a gŵr ifanc mewn cyfnod o ddeffroad gwleidyddol pan oedd gwerin gwlad yn dechrau galw am le mewn rheoli gwlad ac yn araf sylweddoli mai yr hyn fu bywyd gwleidyddol hyd hynny oedd gwrthdaro achlysurol rhwng teuluoedd mawr ardaloedd a siroedd a chreu a gweinyddu deddfau oedd yn amcanu at hyrwyddo eu buddiannau eu hunain. Adlewyrchid llawer o'r ymwybyddiaeth hon yn rhai o gylchgronau Cymraeg y cyfnod ac yn arbennig felly yn *Y Cronicl*, dan olygyddiaeth Samuel Roberts, Llanbryn-mair, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1843 pan oedd Pan Jones yn naw mlwydd oed. Taranai'r *Cronicl* yn erbyn gormes landlordiaeth, y degwm, rhyfel, a chaethwasiaeth ac utganai dros ryddid masnach a rhyddid crefyddol. Dyma ddyfyniad perthnasol o anerchiad Pan 'At y Darllenydd' yn ei gofiant i'r *Tri Brawd o Lanbrynmair a Conwy*:

> Ber, mewn cymhariaeth, fu fy adnabyddiaeth bersonol o honynt, ond yr oeddwn yn nabod enwau 'Riaid y *Cronicl*,' a 'Bechgyn Llanbrynmair', er yn blentyn. Yr oedd eu henwau yn gysegredig gan fy anwyl fam, a siaredid yn barchus am danynt ar aelwyd fy hen weinidog . . . fel yr aethum i'w caru a'u hedmygu, heb yn wybod i mi fy hun, ac ni fu ganddynt ffyddlonach dysgybl yn y wlad.

At hyn gwyddai'n dda, o brofiad, wrth dyfu'n ddyn ifanc mai gwaelod yr ysgol gymdeithasol oedd lle'r gweithiwr, boed hynny yng nghefn gwlad Ceredigion neu yng nghymoedd glofaol y De.

Cyhoeddwyd ei ysgrif gyntaf ar bwnc y Tir yn *Y Celt* ar yr ail o Fedi, 1881, ac yntau erbyn hynny yn olygydd y papur. Eithr galwad am ddiwygio y deddfau tir sydd ganddo yn yr ysgrif honno ac un hollol nodweddiadol o Radical Rhyddfrydol. Mae'n condemnio'r drefn bresennol yn ddiarbed: miloedd o aceri o dir heb eu trin; dim iawn i denantiaid am y gwelliannau a wnaed ganddynt i'w ffermydd; dim diogelwch tenantiaeth; landlordiaid yn medru codi ardreth yn fympwyol, a threfn aeriaeth, sef trefn etifeddu tir, yn rhwystro tiroedd i gael eu prynu a'u gwerthu fel unrhyw nwydd arall.

Yr un yw ei gywair mewn ysgrif arall ym mis Hydref lle mae'n llawenhau o weld tystiolaeth fod amaethwyr yn Yr Alban, Lloegr a Chymru yn codi eu llais dros Gynghrair Tirol o ryw fath, tebyg i'r hyn oedd yn bodoli yn Iwerddon yn niwedd y saithdegau. Gwyddai'n burion am waith Michael Davitt yno yn sefydlu y *Land League* yn Hydref 1879, gyda'r amcan o ostwng rhenti, amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan o'u ffermydd a cheisio sicrhau hefyd fod y werin yn dod i etifeddu'r tir. Gwir fod y sefydliad Gwyddelig hwnnw wedi cael ei gyhoeddi'n anghyfreithlon gan lywodraeth Prydain o fewn rhai misoedd ond 'doedd hynny'n lleddfu dim ar frwdfrydedd Pan dros weld sefydlu cynghrair tebyg yng Nghymru. Roedd o'n digwydd credu fod 'na gyfiawnhad dros y terfysg yn Iwerddon, fel y lleiaf o ddau ddrwg, ac ni chiliodd rhag cyhoeddi hynny'n gwbl agored:

> Ein cred yw fod saethu a Boycotio nifer o dirfeddianwyr a'u stiwardiaid yn llai drwg na llethu y dosbarthiadau gweithiol Gwyddelig o dan bwysau hen ddeddfau gorthrymderus; . . .

Ond wrth ddadlau dros Gynghrair Tirol tebyg i'r un Gwyddelig yng Nghymru ac, yn arbennig, wrth geisio cyfiawnhau tactegau'r Gwyddelod yn eu hymgyrchoedd yn erbyn y tirfeddianwyr, gwyddai Pan hefyd ei fod yn mynd yn groes i uniongrededd Rhyddfrydwyr Cymru ac y byddai'n wrthodedig ganddynt mewn dim amser.

Yn nechrau Ionawr 1883 dechreuodd gyhoeddi cyfres o ysgrifau yn *Y Celt* o dan y pennawd awgrymog 'Y Ddaear a'i Pherchenogion' ac yn y rhain fe'i cawn yn cefnu ar alw am ddiwygio'r deddfau tir gan ddewis yn hytrach ddatgan yn ddigamsyniol yr angen am fynd ymhell tu draw iddynt a derbyn mai i'r genedl y perthyn y tir ac nid i unigolion. 'Y bobl biau'r ddaear' yw ei floedd bellach ac aiff ati i gystwyo'r bendefigaeth dirol gan fynnu yr un pryd mai 'unig swydd y goron . . . yw dal y bendefigaeth i fynu a'i gwyngalchu'.

Ond sut mae mynd ati i ofalu mai i'r bobl y mae'r ddaear yn perthyn?

Cyhoeddodd yr Americanwr, Henry George, gyfrol sylweddol yn 1879, dan y pennawd *Progress and Poverty*, yn mynd i'r afael yn drylwyr â goblygiadau economaidd, gwleidyddol a moesol y cwestiwn hwn, cyfrol a ddylanwadodd yn fawr ar y trafod a fu ar y pwnc, yn Iwerddon a Lloegr yn arbennig. Yr un modd, yn 1882, cyhoeddodd Alfred Russel Wallace gyfrol nodedig ar yr un mater dan y pennawd *Land Nationalization*. Gwyddai Pan yn dda am George a Wallace. Yn wir, tystiodd iddo, yn ystod un o'i ddwy daith i'r Merica, gyfarfod â Henry George yn ei gartref yn Efrog Newydd a diamau iddo gyfarfod â Wallace yn ystod ail gynhadledd y *Land Nationalization Society* yn Llundain. Dylanwadwyd arno gan y ddau ac y mae'n debygol iawn, yn fy marn i, ei fod o'n gyfarwydd a chynnwys y ddwy gyfrol a nodais yrŵan.

Fel yr awgrymais i'n gynharach, diddordeb y diwygiwr cymdeithasol oedd un Pan yn yr holl fater, nid diddordeb y dadansoddwr syniadau, ac ar bregethu neges ganolog George a Wallace yr oedd ei holl fryd. Ofer disgwyl felly am drafodaeth ddamcaniaethol ymysg ysgrifau Pan. Byr a chyffredinol dros ben ydi ei ateb o i'r cwestiwn ac fel pob ymgyrchydd gwleidyddol effeithiol, ar slogan gyfleus ac ailadrodd yr un bregeth y mae o'n dibynnu. Dyma un dyfyniad, o sawl un cyffelyb:

> Cymered y llywodraeth, y gallu etholedig gan y bobl, . . . yr holl dir yn ol i'w llaw ei hun, a bydded yr Arglwydd Ganghellor (*for the time being*) yn dirfeddianwr, neu yn oruchwyliwr dros ac yn enw y genedl; prisier y cyfryw diroedd . . . a gosod arnynt ardrethi yn ôl angen y Cyllid, taled y barwn am ei dyddyn, fel y filain, bydded bob un yn denant i'r Llywodraeth, aed y rhenti i drysorfa y Cyllid a bydded prydles pob un yn ogyhyd a'i allu i dalu y treuliau neu y rhent. (*Y Celt*, Mawrth 9, 1883)

Dengys mewn ysgrif arall, lle mae'n trafod diwydiannau y llechi a'r glo, y gall fod lle i lywodraeth leol hithau mewn cenedlaetholi:

> . . . dylid eu gweithio gan y genedl drwy drefniadau Seneddol, neu drwy y Cynghorau Sirol, cynghorau o ddewisiad y bobl, . . . (*Cwrs y Byd*, Rhag. 1900)

Ac i'r cwestiwn a ddylid talu iawn i dirfeddianwyr am gymryd y tir oddi arnyn nhw? dwed Pan ei fod o'n dilyn Wallace yn y cyswllt hwn: dylid, ar bob cyfrif, cyn belled â bod y tirfeddiannwr dan sylw yn medru profi ei fod o, neu un o'i hynafiaid, wedi prynu'r tir yn gwbl onest ac agored. Oni all wneud hynny rhaid mynd â'r tir oddi arno heb iddo fedru hawlio yr un ddimai oddi wrth y wladwriaeth amdano. Dyna, gyda llaw, a fynnai Henry George ei wneud hefo pob tirfeddiannwr. Yn ei olwg o dylai'r wladwriaeth drethu rhenti'r tirfeddianwyr gant y cant a'u gwneud felly yn gasglwyr rhenti o fath i lywodraeth y dydd. Eu hunig

gysur fyddai medru hawlio treuliau unrhyw welliannau a wnaed ganddynt i'r adeiladau a'r tiroedd.

Roedd gan Pan hefyd ddadleuon dros gyfiawnhau'r gosodiad fod y ddaear yn perthyn i'r genedl gyfan. Ar dir moesol apeliai at y syniad o hawliau naturiol dyn; dyfynnai adnodau o'r Beibl yn ogystal, yn datgan fod Duw wedi rhoi'r ddaear i holl feibion dynion a'i bod, fel y goleuni a'r glaw a'r aer a anadlwn, yn gwbl hanfodol i fodolaeth yr hil ddynol. Gosodai bwyslais arbennig ar rinwedd cydraddoldeb a phwysleisiai fod Duw yn gwbl ddi-dderbyn-wyneb. Ar dir hanesyddol (a chafodd y ddadl hon yn llyfr Henry George) mynnai fod trefn ffiwdalaidd yr oesoedd canol yn dangos yn eglur fod y ddaear yn perthyn i'r genedl ar gorn y ffaith fod barwniaid Gwilym Goncwerwr yn dal eu tiroedd ar yr amod eu bod yn cyflawni nifer helaeth o wasanaethau i'r goron. Y goron, meddai, dros y bobl, a ddaliai'r tir mewn gwirionedd. Yna, yn 1660, pan ddaeth Siarl yr Ail ar yr orsedd, oherwydd na allai, bellach, wisgo'i goron ar sail yr 'hawl ddwyfol' a ddiflannodd i ebargofiant pan gollodd ei dad ei ben, fe newidiodd y sefyllfa:

> Boddlonodd yr Arglwyddi [*meddai Pan*] ei wneud yn frenin os gwnai yntau hwy yn *landowners* yn lle yn *landholders* fel yr oeddynt cynt . . . Desgrifia yr Act [*a gafwyd trwy'r Senedd i gyfreithloni'r newid*] ar ba ryw bethau yr oeddid i godi tollau, a'u bod i gael eu rhoddi i'r brenin a'i etifeddion hyd byth yn lle pob gwasanaeth personol a milwrol, gwarchodaeth a gosgorddion, ymborth a phob cysuron. Dyna i ti, ddarllenydd hynaws, y gair *bydded*, roddodd fodolaeth i landlordiaeth. (*Y Celt*, Mawrth 19, 1886)

Dyna'r bregeth, fwy neu lai, a draddododd Pan dros gyfnod hir o flynyddoedd – 'ei ffidl undant', chwedl un o'i feirniaid.

Ond soniais am slogan yn ogystal: beth am honno? Mi gofiwch i Pan, ar ddiwedd ei adroddiad am ail gynhadledd y *Land Nationalization Society*, ofyn i'w ddarllenwyr am gyfieithiad o'r enw Saesneg. Ymhen amser credaf mai o'i ben ei hun y daeth yr ymadrodd Cymraeg ac fe ymddangosodd am y tro cyntaf mewn hysbyseb yn cyhoeddi cyfarfod o gangen gyntaf y Gymdeithas yng Nghymru ar Awst 10fed, 1883, yn Ysgoldy y Cysegr, Mostyn. O hynny ymlaen daeth 'Y Ddaear i'r Bobl' a 'Cymdeithas Y Ddaear i'r Bobl' yn ymadroddion tra adnabyddus ledled Cymru.

Ac y mae'r 'ledled Cymru' yna i'w ddeall yn gwbl lythrennol. Yn ystod yr wythdegau bu Pan yn darlithio ar 'Y Ddaear i'r Bobl' yn gyson, fis ar ôl mis, wythnos yn dilyn wythnos, ar drên, ar droed ac mewn cyfrwy, ond yn y nawdegau defnyddiodd gyfrwng arall ychwanegol. Yn Lloegr defnyddiai cenhadon yr *LNS* nifer o faniau, yn cael eu tynnu gan geffylau, i ledaenu eu neges, yn aml iawn yn yr awyr agored oherwydd fod neuaddau a stafelloedd cyhoeddus ar gau iddynt mewn

sawl ardal, ac ar gais Pan, cytunasant i fenthyca fan er mwyn iddo fo a rhai o'i gyfeillion fynd ar daith drwy rannau o Gymru ar yr un perwyl. Yn wir, erbyn 1900, gallai gyhoeddi yn y *Cwrs* fod y fan Gymreig, ers blwyddyn bellach, yng ngofal Gwyneth Vaughan yng Nghwm-y-glo a'i bod yn segur oherwydd nad oedd y Cymry yn barod i'w chynnal ar daith. 'Mae y Saeson', meddai, 'wedi rhoddi y *Van*, ond disgwyliant i'r Cymry ddwyn y draul i'w gweithio.'

Trefnodd ac arweiniodd ei hun o leiaf dair taith yn ystod y degawd sef yn 1891, 1895 ac 1897 ac ar eu cyfer gofalodd fod ganddo nifer o ganeuon propaganda yn argraffedig mewn taflen bach a werthai am ddwy geiniog y copi neu ddeg swllt y cant. Yn ystod taith o dair wythnos yn 1897 cafodd gwmni cantores adnabyddus, Mrs. Megan Jones Davies, R.A.M., Lerpwl, hi yn cyfeilio iddi ei hun ar harmoniwm fechan ac yn ôl adroddiad Pan am y daith cafodd y gantores groeso arbennig o gynnes ym Methesda oherwydd, meddai, ei bod 'wedi bod yn wasanaethgar i gor Bethesda pan ar ei ymdaith yn swydd Lancaster (*sic*), ac amlwg oedd ei bod yn ffafryn ganddynt'.

Fel ei gyfoeswyr yn Lloegr cafodd Pan drafferthion yma ac acw yn ystod ei deithiau hefo'r fan, ac ambell neuadd a festri capel wedi eu cau yn ei wyneb, heb unrhyw groeso gan rai i letya na bwyta. Ond, ar y cyfan, cafodd groeso gwâr yn y mwyafrif mawr o bentrefi a threfi yr ymwelodd â nhw. Ni fu'r teithio yn ddibrofedigaeth. Er enghraifft, wrth deithio o Flaenau Ffestiniog i Fetws-y-coed mi benderfynwyd gosod y fan yng nghynffon y trên:

> . . . ond ymddengys fod y tu fewn i'r tunel wedi ymwasgu yn nghyd ac yn is nag yn y genau, a phan ddaeth y tren allan i'r goleuni gwelid fod oddeutu chwe modfedd o ben y *Van* wedi myned.

A 'doedd hi ddim bob amser yn hawdd i gael gwrandawiad iawn chwaith oherwydd fod gwrthwynebwyr yn ceisio tarfu ar y cyfarfodydd. Yng Nghastellnewydd Emlyn roedd rhai o'r hil honno wedi trefnu i gael sioe *Punch and Judy* i gystadlu hefo Pan a'i griw ond mi ofalodd rhai o fechgyn y dre honno gau'r sioe yn ddigon diseremoni. Yna, yn Nhregaron, mi ofalwyd gan wrthwynebwyr fod buwch yn rhedeg yn ôl a blaen tu cefn i'r gynulleidfa ar y sgwâr o flaen y Talbot tra oedd y siaradwyr wrthi'n traethu ond mi hysiwyd honno o'r ffordd gan Dregaronwyr trugarog mewn dim amser.

Dyna gip ar genhadaeth wleidyddol Pan ymysg ei gyd-Gymry. 'Doedd o ddim heb ei feirniaid yn sicr, nifer o'i gyfeillion yn eu plith, ond 'does dim amser i fynd ar ôl hynny yrŵan. Digon yw nodi ei fod o ei hun yn sylweddoli'n glir fod ei neges yn amhoblogaidd a'i fod yn cael ei gyfri'n eithafwr a breuddwydiwr penboeth gan bobl yn gyffredinol ond 'doedd o ddim am adael i hynny ei lesteirio rhag traethu ei gred.

Roedd o yn argyhoeddedig fod ei syniadau o a'i debyg yn syniadau y dyfodol.

'Does dim sy'n amlycach yn ei ysgrifau na'i anfodlonrwydd â meddylfryd a pholisïau dwy blaid wleidyddol ei ddydd. Roedd y Toriaid, bid siŵr, tu hwnt i unrhyw obaith am achubiaeth ond dyfnhau hefyd, gyda'r blynyddoedd, yr oedd ei ddadrithiad yn y Rhyddfrydwyr. Mae ei feirniadaeth ar unigolion, Gladstone yn neilltuol, ac ar Seneddwyr Rhyddfrydol (gyda rhai eithriadau prin) yn aml a deifiol. Cyhudda nhw, dro ar ôl tro, o dorri addewidion, o lunio polisïau amhendant ac arwynebol, o geidwadaeth gyfansoddiadol, o ddiffyg arweiniad mentrus ac, yn neilltuol, o fethu â thalu sylw dyladwy i anghenion cynyddol ddifrifol y dosbarth gweithiol. Gallwn gyflwyno sawl dyfyniad sy'n dangos hyn yn ddigamsyniol ond bodlonaf ar ddau yn unig, y naill o'r wythdegau a'r llall o'r nawdegau. Daw'r cyntaf o'r *Celt*, Mawrth 9fed, 1882, tua deuddeng mlynedd cyn sefydlu'r *Independent Labour Party* yn 1893:

> Nid pwnc y blaid Ryddfrydol mwy na'r blaid Doryaidd ydyw ail-drefnu deddfau y tir, canys ar bwnc cysegredigrwydd y tir, mawr mor lleied o wahaniaeth sydd rhwng y ddwy blaid. Rhaid i ni gael pobl ohonom ein hunain, gweithwyr, i'n cynrychioli, nes y byddont yn ffurfio yn y senedd blaid hollol annibynol. Nid yn unig rhaid gostwng y bleidlais i gyraedd y gweithwyr, eithr rhaid hefyd ostwng drws y senedd yn ddigon isel, a'i wneyd yn ddigon llydan fel y gallo gweithwyr anfon gweithwyr iddo yn ddidaro.

Daw'r ail ddyfyniad o'r *Cwrs*, Gorffennaf 1896, ysgrif weddol hir sy'n cyhuddo'r Rhyddfrydwyr o fethu â chyfarfod â phrif broblemau'r oes:

> Ond pan fyddo y Rhyddfrydwyr mewn awdurdod nid ydynt wedi arfer gwneud i'r bobl ond mor lleied byth ag a allont tra yn gwybod yn eithaf da mai y lluaws, y bobl sydd yn eu dal i fynu. Pe buasai y weinyddiaeth ddiweddar wedi gwthio ymlaen fesurau, megis Mesur Cofrestriad, Talu Aelodau Seneddol, *Pension* i hen bobl, &c., buasent wedi enill cefnogwyr a chyfeillion . . . Gwyr y neb sydd yn arfer sylwi a meddwl nad yw cyfreithiau gwlad yn ddim ond buddiant y Seneddwyr wedi ei osod ar bapyr, a pha gymhariaeth ddichon fod rhwng buddiant y pendefig sydd yn *derbyn y Royalties* a buddiant y mwnwyr sydd yn talu *Royalties*. Pan fyddir yn trin cwestiwn yr Wyth Awr yn y Senedd ofer disgwyl i ddynion na wnaethant un awr o waith erioed bleidleisio yn ei ffafr. Gore oll gan hyny i'r bobl, i'r lluaws, pa agosaf atynt o ran amgylchiadau y bydd eu cynrychiolwyr. Ond amser yr etholiad diweddaf yr oedd y blaid a elwir yn rhyddfrydig (?) yn mhob man yn erbyn plaid llafur, . . .

Daw dau beth yn glir o ystyried y dyfyniadau yna, sef fod Pan yn cefnu ar y Blaid Ryddfrydol ac yn edrych ymlaen at weld sefydlu plaid y gweithwyr. A pha athroniaeth wleidyddol oedd yn mynd i esgor ar blaid o'r fath? O ddarllen rhifynnau *Cwrs y Byd* mae'r ateb yn ddigon amlwg: Sosialaeth.

Eithr sylwer ar hyn: Sosialaeth wedi ei hymgorffori mewn plaid yn cynrychioli'n effeithiol fuddiannau y dosbarth gweithiol. Wnâi dim byd arall y tro. Gwyddai Pan am ambell radical Rhyddfrydol, yn arbennig ymysg y to ifanc a ddaeth i'r amlwg yng Nghymru yn y nawdegau, oedd yn proffesu rhai syniadau Sosialaidd ond yn ei farn o ymrwymiad hanner-ffordd i fuddiannau'r werin, ar y gorau, oedd peth felly. Y prawf allweddol y mynnai ei osod ar ei gyfoeswyr gwleidyddol oedd – a ydych yn barod i ymgyrchu dros genedlaetholi'r Tir; ac ymhellach, y glofeydd, y rheilffyrdd, y ffatrïoedd cotwm, y gweithfeydd dur, y chwareli llechi, ac ati? Ar yr ateb i'r cwestiwn yna, yng ngolwg Pan, y tagai'r Torïaid ac y deuai ataldweud angheuol ar y Rhyddfrydwyr.

Yn 1893, mewn ysgrif fer ar Keir Hardie oedd wedi cyrraedd y Senedd flwyddyn ynghynt fel cynrychiolydd Llafur dros West Ham South ac wedi bod yn weithredol fel un o sylfaenwyr yr *ILP* yn Ionawr 1893, mae Pan yn gweld y dosbarth gweithiol yn cryfhau o fewn i'r byd gwleidyddol ac yn darogan y bydd y gweithwyr, trwy eu cynrychiolaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, 'yn fuan yn ddigon cryf, os nad i gael eu plaid eu hunain i awdurdod, yn ddigon i allu dal y clorian yn eu llaw'. Yn 1895 mae'n sylwi ar gynnydd y pleidleisiau Sosialaidd mewn etholiadau cyffredinol, wedi dyblu mewn tair blynedd ac yn achosi i'r Rhyddfrydwyr gwyno fod pleidlais i'r *ILP* yn gymorth i'r Torïaid. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1897, mae'n dadlau mai'r Blaid Ryddfrydol trwy ei hesgeulustod o fuddiannau'r werin, neu'r 'proletariat', sydd wedi rhoi bod i'r *ILP* a'r unig obaith gan y Rhyddfrydwyr bellach, meddai, ydi mabwysiadu eu polisïau nhw, neu rannau ohonyn nhw o leiaf. Yna yn 1902, ddwy flynedd wedi sefydlu'r Blaid Lafur, ar y pryd o dan yr enw *Labour Representation Committee*, (yn 1906 y mabwysiadawyd yr enw 'Plaid Lafur') mae Pan yn datgan fod yn rhaid i'r gweithwyr gael plaid yn y Senedd fydd yn medru troi'r fantol mewn mater o bleidlais, oherwydd, meddai, 'nerth plaid ac nid cyfiawnder ei hachos sicrha iddi wrandawiad'. Ac ychwanega: 'Pan gaffo meibion llafur y ffordd yn rhydd i ddyfod i'r Cyngor Cenedlaethol a sefyll ar yr un tir a'r barwniaid, – swp o glai o'r un natur a hwythau, ni byddant yn faith cyn rhanu y brasder i ni, nid rhanu yn gyfartal, ond rhanu yn ol ein hangen, . . .'

Y mae eto un darn o dystiolaeth benodol sy'n werth ei ddyfynnu. Mewn llythyr dyddiedig Mawrth 23, 1897, at Mrs. Megan Jones Davies, y gantores y cyfeiriais i ati yn gynharach, merch oedd yn wraig

i'r Sosialydd, Benjamin Davies, mae Pan yn gofyn ffafr ar ei rhan hi a'i gŵr yn y geiriau hyn:

> A fydd Mr. Davies yn ysgrifenu weithiau i'r Clarion [*y papur Sosialaidd a olygid gan Robert Blatchford*] os yw yn gwneud buaswn yn wir ddiolchgar iddo am wneud sylw o'r Cwrs fel yr unig Socialist yn Gymraeg. Diolch i chwi am y Clarion mae yn wir dda ambell wythnos.

Dyna ddigon, greda' i, i ddangos mai oddi mewn i'r Mudiad Llafur newydd y dymunai Pan Jones weld gwleidyddwyr Cymreig y dyfodol yn llafurio. Eithr ni olygai hyn y mynnai eu gweld yn peidio ag ymgyrchu dros sicrhau Tâl i Aelodau Seneddol, Ymreolaeth i Gymru (bu'n genedlaetholwr diwyro gydol ei oes a thystia ei farddoniaeth yn arbennig i hynny), addysg Gymraeg a Chymreig, Datgysylltiad yr Eglwys Wladol a dileu'r Degwm, Pleidlais i Ferched, a sawl achos radical arall. Yn wir, petai'r Mudiad Llafur a'r Mudiad Cenedlaethol yng Nghymru wedi cadw yn nes at raglen wleidyddol Evan Pan Jones mae'n debyg y byddai'r Cymry wedi eu harbed rhag llawer gwrthdrawiad a chamddealltwriaeth chwerw a'u gwanychodd ar y daith tuag at ddinasyddiaeth deg. Dichon na fyddid wedi pegynnu sosialaeth ac adwaith, cenedlaetholdeb a chydwladoldeb, o leiaf i'r fath raddau ag a wnaed. Efallai y byddai'r Mudiad Llafur yng Nghymru wedi talu mwy o sylw o lawer i gyfrol David Thomas, *Y Werin a'i Theyrnas*.

Eithr ar y diwedd, yn ôl at y dyn ei hun, yn fyr. Ac ni allaf feddwl am ddim gwell i'w wneud na dyfynnu rhan o'r hyn a ddwedodd ei arwr, Michael D. Jones amdano. Daliai o:

> . . . nad oes ond un Pan yn y byd, ac nid wyf yn meddwl fod neb ar y ddaear yn ddigon barddonol i ddychmygu am yr un arall byth i ddyfod, o leiaf yr un fath a'r un presenol.

MEREDYDD EVANS
*Cwmystwyth*